# Bwletin y Farchnad HCC

Tachwedd 2020

**Mae ystadegau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn taflu goleuni ar batrymau mewnforio/allforio cig coch y DU rhwng Ionawr a Medi eleni. Bydd bwletin y farchnad y mis hwn yn ystyried yr ystadegau yn fanylach, a'r hyn y gallent ei olygu o nawr tan ddechrau'r flwyddyn nesaf.**

## CIG EIDION

Mae ystadegau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn dangos y cafodd 20,500 tunnell o gig eidion ffres/wedi rhewi ei **fewnforio** i'r DU yn ystod mis Medi - 10.4% yn fwy nag yn mis Medi y llynedd. Cafwyd cynnydd o 18.7% yn y mewnforion o Iwerddon ym mis Medi, ond mewnforiwyd tua 200 tunnell yn llai o Wlad Pwyl. Er y cafodd mwy o gig eidion ei fewnforio yn ystod mis Medi, mae'r cyfanswm a fewnforiwyd hyd yma yn ystod y flwyddyn (sef 175,400 tunnell) yn dal i fod tua 5% yn llai na'r llynedd. Mae'r DU wedi derbyn 3,000 tunnell yn llai o gig eidion o Iwerddon hyd yma yn ystod 2020, er bod 2.9% yn fwy o wartheg na'r llynedd wedi cael eu lladd ar yr Ynys Werdd (Ffynhonnell: Bord Bia).

O ran cyfaint, roedd cyfanswm y cig eidion ffres/wedi rhewi a **allforiwyd** o'r DU yn ystod mis Medi yn debyg i'r hyn ydoedd yn ystod y misoedd blaenorol. Roedd cyfanswm y cig eidion a allforiwyd ym mis Medi oddeutu 9,000 tunnell, sef 33.7% yn llai na'r llynedd ond rhywbeth yn debyg i fis Awst eleni. Derbyniodd Yr Iseldiroedd 2,300 tunnell yn llai o gig eidion gan y DU yn ystod y mis, a derbyniwyd llai hefyd gan Iwerddon a Ffrainc. Mae cyfanswm yr holl gig eidion a allforiwyd hyd yma eleni (hyd at fis Medi), sef 87,400 tunnell, yn 11.5% yn llai na'r llynedd. Mae'r gwerth (sef £290.1m) hefyd yn 15.0% yn llai, sydd yn awgrymu fod y pris y cilogram am y cig eidion a allforiwyd wedi gostwng 4.0% mewn cymhariaeth â naw mis cyntaf 2019.

## CIG DEFAID

Cafodd 4,000 tunnell o gig defaid ffres/wedi rhewi ei **fewnforio** i'r DU yn ystod mis Medi, sef 41.4% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ond 8.1% yn llai nag yn ystod mis Medi 2018. Mewnforiwyd 800 tunnell yn fwy o Seland Newydd a 250 tunnell yn fwy o Awstralia. Wrth edrych ar 2020 hyd yma, gwelir bod llai o gig na'r llynedd wedi cael ei fewnforio bob mis, ar wahân i fis Mawrth (17.1% yn fwy) a mis Medi. Felly, mae cyfanswm y cig a fewnforiwyd hyd yma yn 7.3% yn llai na'r llynedd, a chafodd 3.3% yn llai ei fewnforio o Seland Newydd. Mae cyfanswm y cig sy'n cael ei fewnforio o Seland Newydd ac Awstralia wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan bod y gwledydd hyn yn canolbwyntio bellach ar farchnadoedd yn Asia, sy'n golygu bod llai o gig yn cael ei glustnodi ar gyfer y DU.

Roedd gostyngiad o 22.2% i 7,500 tunnell yng nghyfanswm y cig defaid ffres/wedi rhewi a **allforiwyd** yn ystod mis Medi. Gwelwyd gostyngiad ym mhob un o'r tair marchnad allforio pwysicaf: Ffrainc (-23.4%), Yr Almaen (-27.5%), ac Iwerddon (-12.9%). Er y cafodd llai o gig defaid ei allforio nag yn y mis cyfatebol yn 2019, ym mis Medi y cafwyd yr allforion ail fwyaf hyd yma yn 2020 (allforiwyd 8,200 tunnell ym mis Gorffennaf). Er taw tua 62,800 tunnell o gig defaid gafodd ei allforio hyd yma eleni, sef 8.7% yn llai na'r llynedd, roedd y cig yn werth £314.9m, sef cynnydd o 9.6%. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae allforion o'r DU wedi elwa ar gyfradd gyfnewid ffafriol sydd wedi cael effaith fuddiol ar y prisiau sy'n cael eu talu i ffermwr.


## PORC


Gwelwyd gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall o 20.5% (8,300 tunnell) yng nghyfanswm y **mewnforion** porc ffres/wedi rhewi yn ystod mis Medi. Y prif reswm am hyn oedd bod llai o borc wedi dod o Iwerddon (-1,200 tunnell) a'r Iseldiroedd (-1,300 tunnell). Er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol, cafodd 4.9% yn fwy o borc ei dderbyn o'r Almaen yn ystod y mis. Cafodd cyfanswm o 257,000 tunnell o borc ei fewnforio yn ystod y flwyddyn hyd yma, sef 17.9% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Cafwyd ychydig bach o gynnydd yng nghyfanswm y porc ffres/wedi rhewi a gafodd ei **allforio** yn ystod mis Medi mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol y llynedd - sef 0.4% i 21,600 tunnell. Tsieina yw'r prif gyrchfan o hyd, gyda chynnydd o 25.0% yn ystod y mis, tra anfonwyd 20.7% yn llai o borc i Iwerddon. Mae cyfanswm yr holl borc a allforiwyd hyd yma eleni yn 192,000 tunnell, sef 7.4% yn fwy na'r llynedd. Digwyddodd y cynnydd yn yr allforion ochr yn ochr â chynnydd o 3.0% yn y cig moch a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod cyfatebol. Er i 35,200 tunnell yn fwy o borc gael ei anfon i Tsieina hyd yma yn 2020 (mewn cymhariaeth â 2019), mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod Tsieina yn dechrau ailgodi ei chenfaint foch. Gall hyn ddylanwadu ar y rhagolygon allforio ar gyfer porc o'r DU yn ystod y 12 mis nesaf.

*Wrth i hyn gael ei ysgrifennu, mae yna ansicrwydd o hyd ynghylch perthynas fasnachu'r DU â'r UE, ac mae'n debygol y caiff unrhyw batrymau masnach yn y dyfodol eu dylanwadu'n fawr gan y berthynas hon. O ran cig defaid, mae angen mewnforion i ateb gofynion defnyddwyr oherwydd natur dymhorol cynhyrchu cig oen yn y DU. Yn 2019, cafodd dros 90% o'r cig defaid a allforiwyd ei anfon i wledydd yr UE, ac felly mae marchnadoedd allweddol fel hyn yn bwysig dros ben i sector defaid y DU. O ran cig eidion, mae'r DU yn 75-80% o ran hunan gynhaliaeth. Mae'n dibynnu ar fewnforion ac allforion cig eidion er mwyn ateb y galw, ynghyd â chydbwyso'r defnydd o'r carcas. Bydd y rhan fwyaf o'r allforion yn cael eu hanfon i Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd. Yn debyg i gig eidion, caiff mwy o borc ei fewnforio na'i allforio gan bod y DU oddeutu 60% o ran hunan gynhaliaeth. Yn y flwyddyn newydd, bydd yna fasnachu o hyd rhwng y DU a'r UE/gweddill y byd – er y bydd y prisiau'n wahanol, a bydd unrhyw newidiadau i'r fasnach yn debygol o gael effaith ar gadwyni cyflenwi'r DU.*

## Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


### GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 202.3c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Tachwedd - 0.1c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Yn debyg i'r wythnosau blaenorol, roedd y prisiau'n ansefydlog ond yn dal yn gryf. Mae'r pris cyfredol yn 22c yn uwch nag ydoedd flwyddyn yn ôl ac yn 14.7c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 187.6c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Tachwedd, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 371.3c/kg, sef 2.7c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a 50.4c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 368.9c/kg (2.9c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol), teirw ifainc yn 358.7c/kg (+3.3c), a'r pris am fuchod difa yn 217.5c/kg (-3.0c).

Lladdwyd cyfanswm o 247,800 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Hydref, sef 9.7% yn llai nag ym mis Hydref 2019. Mae hyn yn golygu y cafodd tua'r un nifer o wartheg ag yn 2019 eu lladd (cyfanswm o 2.35 miliwn) yn ystod deg mis cyntaf 2020. Cafwyd gostyngiad o 7.3% i 172,600 yng nghyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod mis Hydref. O fewn y cyfanswm hwn, roedd y gostyngiad mwyaf ymhlith y teirw ifainc (-17.8%). Lladdwyd 6.7% yn llai o wartheg llawn-dwf nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Golygodd y gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd a laddwyd fod yna ostyngiad o 6.6% i 80,700 tunnell yn y cig eidion a gynhyrchwyd ym mis Medi.

## Prisiau wyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


### DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn dethol pwysau byw wedi bod yn uwch nag oedd yn 2019 a 2018 oddi ar fis Gorffennaf. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Tachwedd, roedd y pris (sef 208.0c/kg) yn uwch na £2/kg unwaith eto ac yn 8.3c yn well na'r wythnos flaenorol. Mae'r pris ar hyn o bryd yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2019, a 42.5c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 165.5c/kg). Pris cyfartalog y mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw Cymru oedd £59.10 y ddafad - £3.50 yn uwch na'r wythnos flaenorol, a thua £5.00 y famog yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Roedd y pris pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 462.2c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 21 Tachwedd - 0.7c yn is nag yn yr wythnos flaenorol.

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Hydref oedd 1.4miliwn, sef 6.9% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Lladdwyd 4.9% yn fwy o ŵyn dethol na'r llynedd, ond lladdwyd 23.8% yn llai o famogiaid difa a hyrddod. Yn dilyn y gostyngiad yn nifer y defaid a laddwyd yn ystod mis Hydref, lladdwyd 2.8% yn llai o ddefaid difa ac ŵyn na'r llynedd hyd yma eleni. Roedd pwysau cyfartalog carcasau ŵyn dethol yn debyg i'r hyn oeddynt yn 2019, ac roedd carcasau defaid difa yn 1.4kg yn drymach. Fel canlyniad, cynhyrchwyd 7.0% yn llai o gig defaid ym mis Hydref nag yn y mis cyfatebol y llynedd (cyfanswm o 27,400 tunnell).

## Pris cyfartalog moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




**Cynnyrch Porc yn y DU**

### MOCH

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 158.7c/kg yn yr wythnos yn diweddu 14 Tachwedd, sef 0.4c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Mae prisiau moch wedi bod yn mynd tuag i lawr ers mis Awst, ac wedi disgyn yn is na'r llynedd am yr ail wythnnos yn 2020 (mae'r pris cyfredol yn 1.5c yn is nag 2019). Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod Covid-19 yn dal i olygu prinder staff mewn rhai unedau prosesu cig, a bod y carcasau'n drymach am fod oedi cyn lladd moch. Ffactor arall yw'r ffaith fod clwy Affricanaidd y moch yn Yr Almaen yn dal i gael effaith ar brisiau moch yn fyd-eang. Doedd y pris cyfartalog am berchyll-30kg yng ngwledydd Prydain ddim ar gael ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 14 Tachwedd. Y pris cyfartalog am berchyll-7kg oedd £39.57 y mochyn, sef 17.0c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol.

Cyfanswm yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Hydref oedd 1.0 miliwn, sef 2.0% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Y prif reswm am y gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall oedd gostyngiad o 2.1% yn nifer y moch heb fagu a laddwyd; cafodd 4.9% yn fwy o hychod a baeddod eu lladd nag yn y flwyddyn flaenorol. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm yr holl foch a laddwyd hyd yma yn ystod y flwyddyn, sef 9.3 miliwn, yn 0.8% yn fwy na'r llynedd. Er i lai o foch gael eu lladd yn ystod y flwyddyn, cafodd 1.2% yn fwy o borc ei gynhyrchu yn ystod y mis (89,900 tunnell) – a hynny oherwydd cynnydd ym mhwysau'r carcasau - moch heb fagu (+2.7kg) a hychod a baeddod (+2.6kg).